PUGHE, JOHN ('Ioan ab Hu Feddyg'; 1814-1874), meddyg ac awdur.

Enw: John Pughe
Ffugenw: Ioan ab Hu Feddyg
Dyddiad geni: 1814
Dyddiad marw: 1874
Priod: Catherine Pughe (née Samuel)
Plentyn: Buddug Anwylini Pughe
Plentyn: David Roberts Pughe
Plentyn: Taliesin William Owen Pughe
Plentyn: Rheinallt Navalaw Pughe
Plentyn: John Eliot Howard Pughe
Rhiant: Elizabeth Pughe
Rhiant: David Roberts Pughe
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: meddyg ac awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth
Awdur: Idwal Lewis

Ganwyd 8 Medi 1814 yn Ysgubor Fawr, Chwaen Wen, sir Fôn, mab hynaf David Roberts Pughe ac Elizabeth ei wraig. Cymhwysodd ei hun fel meddyg yn Ysbyty S. Thomas, Llundain, ac ennill y radd o F.R.C.S. Ymsefydlodd am ychydig fel meddyg yn Abermaw ond yn Aberdyfi y cartrefai am y rhan fwyaf o'i oes. Treuliodd ran o dymor ei ieuenctid yng Nghlynnog, Arfon, lle'r oedd yn gyfaill i ' Eben Fardd.' Ysgrifennodd Eben Fardd; ei nodion a'i hynodion, 1864. Efe a fu'n gyfrifol am y cyfieithiad o *Meddygon Myddfai, The Physicians of Myddfai*, a olygwyd gan John Williams, ' Ab Ithel ', a'i gyhoeddi gan y Welsh MSS. Society, 1864. Priododd Catherine Samuel, merch Samuel Samuel, Caernarfon, 21 Chwefror 1839; bu hi farw 14 Hydref 1862, ym Mhenhelyg, Aberdyfi. Yr oedd pedwar o'u meibion yn feddygon o fri, John Eliot Howard (bu farw 1880), Rheinallt Navalaw, Taliesin William Owen (bu farw 1893), yn gwasnaethu yn Lerpwl, a David Roberts (bu farw 1885) yn Sir Drefaldwyn. Merch iddynt oedd BUDDUG ANWYLINI PUGHE, arlunydd, a fu farw yn Lerpwl, 2 Mawrth 1939, yn 83 mlwydd oed. Ysgrifennodd Buddug Pughe hanes ardal ei mebyd, ond ni chyhoeddwyd y llawysgrif. Llanwai John Pughe le amlwg ym mywyd Aberdyfi a'r cylch, fel ustus heddwch a noddwr pob achos dyngarol a chrefyddol. O ran ei ddaliadau crefyddol gogwyddai at y Plymouth Brethren, a phregethai gyda'r enwad hwnnw yn yr eglwys a gychwynnwyd ganddo yn y cylch. Bu farw 9 Ebrill 1874, a'i gladdu ym mynwent Capel Maethlon, tir a berthynai i'r teulu.

Brawd iddo oedd DAVID WILLIAM PUGHE (1821 - 1862), ail fab D. R. Pughe; ganwyd ef yn Chwaen Wen, sir Fôn, 21 Awst 1821. Yr oedd yntau yn feddyg, wedi'i addysgu yn Nulyn a Llundain, a graddio yn M.R.C.S. ac ymsefydlu yng Nghlynnog. Ysgrifennai farddoniaeth a thraethodau ar hynafiaethau i newyddiaduron a chylchgronau Cymreig, ac fe gyhoeddwyd nifer o'i lyfrynnau ar gestyll Gogledd Cymru gan H. Humphreys, Caernarfon : *The History of Beaumaris Castle*, *The History of Caernarvon Castle*, *Historical sketch of Conway Castle*, *Historical sketch of Harlech Castle*, *Observations on the antiquities of the parish of Clynnog Fawr*. Bu farw 22 Tachwedd 1862.

Awdur

Idwal Lewis

Ffynonellau

NLW MSS 7434-52

John Cule, *Annals of the Royal College of Surgeons* ' Cyf. 37, Hydref 1965, 247-57

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Pughe

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 11397823

Wikidata: Q21480955

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu